

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd yn Aberystwyth
ddydd Gwener 13 Mawrth 2015
rhwng 10.00 a 12.30

Presennol:

Aelodau

Syr Deian Hopkin, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Hugh Thomas
Tricia Carter, Is-Lywydd	Enid Morgan	Wyn Penri Jones
Gareth Haulfryn Williams	Roy Roberts	Huw Williams
Roy Evans	Michael Trickey	
Philip Cooper	Susan Davies	

Aelodau staff

Aled Gruffydd Jones	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol
Pedr ap Llwyd	Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant
Annwen Isaac	Swyddog Adnoddau Dynol

Eraill

Linda Tomos	CyMAL
Rebecca Johnson	CyMAL
Stephen Benham	Cyngor Whitley
Doug Jones	Cyngor Whitley
Rhodri Clwyd Griffiths	Ymgynghorydd Rheoli Newid
Emyr Schofield	BBC

Sesiwn Agored

Adran 1 Eitemau ffurfiol

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, ac yn arbennig y Dr Susan Davies a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf ers ei phenodi'n Ymddiriedolwr.

Roedd Yr Arglwydd Aberdâr wedi ymddiheuro am ei absenoldeb.

1.2 Datgan Buddiannau

Roedd Huw Williams wedi datgan buddiant yn y mater o gomisiynu'r Adolygiad Allanol Annibynnol i'r camau disgyblu a gymerwyd yn erbyn dau aelod o staff a arweiniodd at achos yn y Tribiwnlys Cyflogaeth: nodwyd bod y datganiad wedi'i gofnodi yn y gofrestr berthnasol. Bu i Michael Trickey a Tricia Carter ddatgan eu buddiannau arferol.

1.3 Cymeradwyo cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf.

Adran 2 Materion 'byw' ac yn codi o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf

2.1 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cyflwynodd David Michael adroddiad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf. Nodwyd bod y contractau adeiladu wedi'u gosod ac y gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn Nadolig 2015: erbyn hyn y bwriad yw cydleo'i'r Comisiwn yma yn y Llyfrgell yn Ebrill 2016. O ran paratoi'r cytundeb rhwng y Llyfrgell a'r Comisiwn, y mae'n edrych yn debyg y bydd gwerth hwn i'r Llyfrgell oddeutu £90k, sef y ffigwr yr oedd y Bwrdd wedi gosod iddo'i hun rai misoedd yn ôl: yn ôl David Michael gall y Bwrdd ddisgwyl gweld drafft o'r cytundeb yn y cyfarfod nesaf.

Gyda'r holl waith adeiladu yn digwydd yn y Llyfrgell yr oedd Roy Roberts yn awyddus i wybod a oedd indemniad y Llywodraeth yn ddigonol ar gyfer ein hyswirio, gan nad oeddem yn medru gwneud hynny ein hunain.

Nododd Susan Davies fod hynny'n wir hefyd am y casgliadau, h.y. nid oedd modd i ni eu hyswirio.

Gweithredu: David Michael i ddarparu copi o gytundeb yn y gobaith y gellid ei gymeradwyo gan yr Aelodau.

2.2 Materion yn ymwneud â'r tân

Roedd adroddiad diweddaraf Geldards wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau. Mynegwyd pryder gan sawl Aelod ynghylch arafwch y broses unwaith yn rhagor. Nododd David Michael mai'r gweinyddwyr swyddogol oedd yn dal y broses yn ôl a nododd ymhellach y byddai angen i Aelodau'r Bwrdd benderfynu cyn bo hir a ydynt am ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn eraill, megis y penseiri a'r rhai hynny oedd yn rheoli'r prosiect. Mewn perthynas â hyn, gofynnwyd i swyddogion y Llyfrgell drafod y mater â Llywodraeth Cymru er mwyn canfod beth yw ei barn hi ynghylch hynny.

Gweithredu: Y Tîm Gweithredol i gynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweld beth yw'r farn ynghylch dwyn achos(ion) cyfreithiol yn erbyn eraill.

2.3 Risgiau sy'n gysylltiedig â'r adeilad

Rhoddodd David Michael drosolwg o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r adeilad, ac yn enwedig mewn perthynas â chwtogi ar arian cyhoeddus a'r gostyngiad yng nghyllid y Llyfrgell.

Roedd Hugh Thomas am i'r Llyfrgell fanteisio ar bob cyfle i fynegi ei gofid a phryder wrth y Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth.

2.4 Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd

Diolchodd Pedr ap Llwyd i'r Aelodau hynny oedd wedi dychwelyd eu holiaduron. Bydd y gwaith o'u dadansoddi'n digwydd yn fuan a bydd y Grŵp Tasg a Chyflawni'n cyfarfod ar 31 Mawrth er mwyn ystyried ymatebion yr Aelodau. Aelodau'r Grŵp fydd Colin John, Tricia Carter ac Wyn Penri Jones.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i ymgynnull cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Chyflawni a pharatoi adroddiad manwl ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.

2.5 Penodi Ymddiriedolwr

Dywedodd Pedr ap Llwyd fod lle gwag ar gyfer un o benodedigion y Llyfrgell wedi ymddangos ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn dilyn marwolaeth anamserol Mr John Gittins, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried sut y dymument lenwi'r bwlch gan ystyried y ddau opsiwn canlynol:

Opsiwn 1

Gyda chymorth a chyingor CyMAL y mae'n bosib y gellid dod o hyd i unigolyn cymwys ar y 'restr wrth gefn' o ymgeiswyr cymwys a ddeilliodd o broses penodiadau'r Llywodraeth yn 2014 a arweiniodd at benodi Mr Phil Cooper a'r Dr Susan Davies yn Ymddiriedolwyr. Pe bai'r Aelodau'n dewis dilyn y llwybr hwn awgrymwyd y gallai'r Ysgrifennydd mewn cydweithrediad â Swyddogion y Llyfrgell, edrych ar anghenion y Bwrdd o ran sgiliau a chymwyseddau a chydbwysedd rhywedd a cheisio gweld a ellid diwallu'r anghenion hynny gyda sgiliau'r unigolion hynny sydd ar restr wrth gefn CyMAL.

Opsiwn 2

Yr ail opsiwn yw gohirio penodi ar hyn o bryd a'i adael am ychydig fisoedd hyd nes y byddwn yn cynnal ymgyrch penodiadau arall pan fydd cyfnod gwasanaeth o leiaf dau Ymddiriedolwr yn dod i ben. Yr anfantais o wneud hynny yw y gallwn gollu'r cyfle i benodi'r unigolion cymwys sydd ar restr wrth gefn CyMAL ar hyn o bryd: mae'n bosib na fyddent yn dymuno mynd drwy broses lawn a llafurus eto.

Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd dilyn Opsiwn 1. Nododd sawl Aelod ei awydd i weld rhagor o fenywod yn cael eu penodi i'r Bwrdd a dylid manteisio ar y cyfle hwn i wneud hynny. Nododd Gareth Haulfryn Williams fod diffyg cydbwysedd daearyddol hefyd yn amlygu ei hun wrth weld y nifer o Ymddiriedolwyr o Ogledd Cymru leihau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i gysylltu â Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ganfod darpar Aelod cymwys ar y rhestr wrth gefn.

2.6 Penodi Ymddiriedolwr i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Cynllun Pensiwn

Drwy gynnig y Llywydd a'i gefnogi gan y Trysorydd a derbyn cymeradwyaeth yr holl Aelodau, etholwyd Huw Williams i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a'r Dr Susan Davies i wasanaethu ar Fwrdd Cynllun Pensiwn y Llyfrgell.

Gweithredu: Bydd Wyn Penri Jones yn trafod gwaith y Pwyllgor Archwilio yn fanylach gyda Huw Williams a David Michael yn trafod gwaith y Cynllun Pensiwn yn fanylach gyda Susan Davies.

Adran 3 Materion strategol a phrif bapurau

3.1 Ailstrwythuro – rhagamcaniadau ariannol a'r cynllun

Cytunwyd nad y 'Cynllun Busnes' y gofynnwyd amdano a gyflwynwyd i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, er y gellid dadlau ei fod yn gam tuag at y nod. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn ddefnyddiol o ran rhannu gwybodaeth am y rhaglen ailstrwythuro, ond nid dyna oedd ei eisiau.

Yn dilyn trafodaeth ar ddatblygu cynllun busnes cytunwyd y byddai'r Tîm Gweithredol yn cyflwyno cynllun llawn i'r Bwrdd, yn ddi-ffael, erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill. Ymhlith materion hanfodol eraill byddai'r cynllun yn cynnwys tair elfen, sef (i) eglurhad manwl o'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd; (ii) ble y dymunem fod fel sefydliad ymhen tair blynedd, a (iii) sut y byddwn yn cyrraedd y man lle y dymunem fod erbyn 2018. Cytunwyd y byddai Tricia Carter, Colin John, Wyn Penri Jones a Phil Cooper yn cyfarfod â'r Tîm Gweithredol yn fuan er mwyn rhannu gyda nhw'n fanylach ddymuniad yr Ymddiriedolwyr o ran strwythur a chynnwys y Cynllun.

O ran yr adroddiad a gyflwynwyd ar y Rhaglen Ailstrwythuro, fe gafwyd nifer o sylwadau defnyddiol. Ymhlith y sylwadau gellid nodi:

- (i) a fyddai'n fantais dod â'r holl gyrff diwylliant ynghyd i baratoi dadl gryfach o ran cyllido'r sefydliadau hynny ac i ddangos nad yw lefelau cyflogau'r sector yn gynaliadwy am hir iawn eto?
- (ii) wrth drefnu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol y mae'n hanfodol bwysig i'r rheolwyr ymgynghori â'r 'arbenigwyr' sydd ar y staff ynghylch materion sy'n effeithio ar eu meysydd diddordeb ac arbenigedd.
- (iii) bod tueddiad yn yr adroddiadau a gyflwynir gan reolwyr i 'chwarae i lawr' ddifrifoldeb y sefyllfa ariannol: mae angen siarad mwy plaen a chyflwyno'r bygythiadau a'r risgiau yn agored a diamwys.
- (iv) byddai'n ymarferiad defnyddiol medru cymharu costau cyflogaeth ac effeithiolrwydd y Llyfrgell hon â chostau cyflogaeth ac effeithiolrwydd llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill y Deyrnas Gyfunol.
- (v) Rhaid wrth gynllun busnes cynaliadwy: mae'r Ymddiriedolwyr yn pryderu ynghylch y sefyllfa ariannol a rhaid wrth wybodaeth ariannol fanylach.
- (vi) Eleni, a heb ohriad pellach, mae angen i'r Llyfrgell ystyried ffyrdd o ddatblygu ei hun fel lluosydd economaidd.

Ar ddiwedd y drafodaeth cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad yn hytrach na'i gymeradwyo gan nad oedd yr wybodaeth ariannol o'i fewn yn caniatáu i'r Aelodau wneud penderfyniad gwybodus ynghylch yr arbedion arfaethedig heb ystyried yn gyntaf y darlun ehangach y gobeithir ei gael mewn cynllun busnes manwl.

Gweithredu: Bydd Aled Gruffydd Jones yn sicrhau fod yna gynllun busnes manwl yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

3.2 Dangosyddion Cyflawni Hydref – Rhagfyr 2014

Cyflwynwyd y dangosyddion gan Pedr ap Llwyd ac fe nodwyd eu cynnwys.

3.3 Cynllun Gweithredu 2015 – 16

Cyflwynwyd y Cynllun gan Aled Gruffydd Jones a diolchodd i Pedr ap Llwyd am ei baratoi.

Trafodwyd ei gynnwys a chytunwyd y dylid manylu rhagor am y cynllun ailstrwythuro yn y rhagymadrodd ac y dylai'r bwriad o wella hygyrchedd at ein casgliadau gael ei amlygu mwy.

Eto, yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu, fe bwysleisiwyd yr angen am gynllun busnes a fyddai'n dangos yn union sut y byddai modd gweithredu'r Cynllun hwn.

Cymeradwywyd y cynllun yn amodol ar ymgorffori sylwadau'r Aelodau ac ychwanegu mynegai ar ei gychwyn.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i ddiwygio'r drafft ac yna ei anfon ymlaen at y Dirprwy Weinidog drwy CyMAL.

3.4 Datganiad Llywodraethiant 2014 – 2015

Cyflwynwyd y Datganiad gan Pedr ap Llwyd a dywedodd y byddai'n croesawu sylwadau pellach gan yr Aelodau cyn diwedd Mawrth.

Gweithredu: Aelodau i anfon eu sylwadau ymlaen at Pedr ap Llwyd cyn diwedd Mawrth.

Adran 4 Materion ariannol

4.1 Adroddiad cyllidebol hyd 28/2/2015

Cyflwynodd David Michael yr adroddiad ac fe wahoddodd sylwadau.

Roedd y rhan o'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at fwriad y Trysorlys i weithredu newidiadau i wneud y Cynllun yn fwy "cynaliadwy" (term y Trysorlys) yn achos pryder mawr i'r holl Aelodau. Hefyd, yr oedd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi mynegi pryder bod y Trysorlys yn bwriadu gorfodi'r newidiadau hyn ac na fyddent er budd yr Aelodau na'r Llyfrgell. Nodwyd ymhellach fod y Cynllun fel y mae ar hyn o bryd yn ffyniannus a bod y stiwardiaeth ohono ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn gwbl ganmoladwy. Byddai goblygiadau ariannol o'r newid meddid, pe bai'r Trysorlys yn cael ei ffordd, yn gost o £300k i'r Cynllun. Byddai cymryd y fath gam yn afresymol ac yn un na ellid ei gyfiawnhau.

Cytunwyd y dylai'r Llywydd, ar ran y Bwrdd, ddwyn sylw'r Dirprwy Weinidog at anfodlonrwydd dwfn yr Aelodau ar y mater hwn a cheisio'i gefnogaeth ef a Llywodraeth Cymru.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Gweithredu: Llywydd i ddwyn sylw'r Dirprwy Weinidog at anfodlonrwydd yr Aelodau ynghylch bygythiadau'r Trysorlys mewn perthynas â'r cynllun pensiwn.

4.2 Codi Arian

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Roedd cyfanswm yr arian a oedd wedi dod i mewn ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd yn siomedig unwaith eto.

Fe gyfeiriodd Aled Gruffydd Jones at y cynllun yr oedd yr ymgynghorydd codi arian, Alison Hope, wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd yn ddiweddar a chytunwyd dilyn Opsiwn A'r cynllun hwnnw. Roedd Opsiwn A'n awgrymu penodi swyddog ar lefel uchel i fod yn gyfrifol am godi arian: ni fyddai'r swyddog o angenrheidrwydd yn swyddog codi arian yn unig, ond o leiaf byddai codi arian yn rhan amlwg a hanfodol o'r disgrifiad swydd. Cytunwyd y byddai'n dda cael cynrychiolaeth o'r Bwrdd ar y panel cyfweled. Gofynnwyd i Aled Gruffydd Jones ofalu fod copi o'r disgrifiad swydd yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau.

Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd creu strategaeth farchnata gan ddangos yn glir sut y bydd y strategaeth honno'n cael ei chysylltu â'r strategaeth codi arian.

Cytunwyd ymhellach y byddai Aled Gruffydd Jones a'i Dîm Gweithredol yn gweithio ar gynllun gweithredu codi arian a hynny yng nghyd-destun creu'r cynllun busnes, ac y byddai hwn yn ogystal yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn eu cyfarfod nesaf.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i ddsbarthu copi o ddisgrifiad swydd i'r Aelodau ac Aled Gruffydd Jones i drefnu fod cynrychiolaeth o'r Bwrdd ar y panel cyfweled. Aled Gruffydd Jones i drefnu llunio polisi marchnata.

Adran 5 Pecyn Gwybodaeth

5.1 Materion y Llyfrgellydd

Nodwyd cynnwys Materion y Llyfrgellydd.

5.2 Materion y Llywydd

Ar gais y Llywydd fe gytunodd y Bwrdd i gomisiynu adolygiad annibynnol allanol mewn perthynas â gweithredu polisi disgyblu'r Llyfrgell a materion eraill a arweiniodd at wrandawriad tribiwnlys cyflogaeth a benderfynodd fod dau aelod o staff wedi'u diswyddo'n annheg.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd, gyda chymeradwyaeth y Llywydd, i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer penodi cwmni i gynnal adolygiad.

Adran 6 UFA

Dim